FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

17 - 20 Chwefror 2004

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw gorfodi cyfraith fwyd sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn sy'n perthyn i awdurdodau lleol, eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo hylendid bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Dylid cydnabod y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau lleol gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdod lleol yn ôl Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd, 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o Gytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys peth data ystadegol, er enghraifft, data ar nifer yr arolygiadau a wnaed ar safleoedd bwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgareddau gorfodaeth ar gyfer holl awdurdodau lleol y DU.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio, yn Atodiad A.

CYNNWYS

		Tud.
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Archwiliad	**4**
	Cwmpas yr Archwiliad	**4**
	Cefndir	**5**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**6**
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefnu a Rheoli	**7**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd	**10**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**11**
6	Cyfleusterau ac Offer	**14**
7	Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**15**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**19**
9	Egwyddor yr Awdurdod Cartref	**20**
10	Cyngor i Fusnesau	**21**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**22**
12	Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**23**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd	**26**
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	**28**
15	Gorfodaeth	**30**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu	**33**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**35**
18	Cysylltiad â Sefydliadau Eraill	**36**
19	Monitro Mewnol	**37**
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd	**39**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**40**
	Atodiad	
A.	Geirfa	**41**

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

Rheswm am yr Archwiliad

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pwer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o dan adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Archwiliwyd yr Awdurdod fel rhan o raglen o archwiliadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cwmpas yr Archwiliad

1.4 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid Pen-y-bont ar Ogwr. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfeydd yr Awdurdod ym Mhen-y-bont ar Ogwr, rhwng 17 a 20 Chwefror 2004.

1.5 Aseswyd cydymffurfiaeth yr Awdurdod yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 - ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Mawrth 2002, Mehefin 2003 a Gorffennaf 2004), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.6 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn Awdurdod Unedol Cymreig, sy'n pontio coridor traffordd yr M4, ac a ganolir ar dref Pen-y-bont ar Ogwr yn Ne Cymru. Mae'n cynnwys ardal o 28,500 hectar â chanddi boblogaeth o ryw 130,000.

1.7 Yn bennaf, mae'r ardal i'r gogledd i'r M4 yn cynnwys cymunedau cymoedd y pyllau glo gynt, gyda'i phrif ganolfan boblogaeth ym Maesteg. Mae sawl ward yn ardal yr Awdurdod yn sgorio'n uchel ar Fynegai Amddifadedd Cymru.

1.8 I'r de i'r draffordd y gorwedd Pen-y-bont ar Ogwr ei hun a thref arfordirol Porthcawl, tref glan-y-môr draddodiadol â chyfran uwch o drigolion hyn. Ceir dylifiad mawr o bobl i'r dref yn ystod misoedd yr haf a, hefyd, mae'n gartref i'r parc carafannau mwyaf yn Ewrop.

1.9 Pen-y-bont ar Ogwr yw'r dref fwyaf yn ardal yr Awdurdod a hi yw canolfan yr economi lleol. Mae canolfannau cyflogaeth sylweddol yn cynnwys Ffatri Beirianneg Ford, ystâd ddiwydiannol helaeth, a Phentref Adwerthu Nwyddau Dylunwyr.

1.10 Gan Adran Gwarchod y Cyhoedd yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Chynllunio'r Awdurdod, a leolir yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, y mae'r cyfrifoldeb am orfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, ac am ymchwilio i achosion o wenwyn bwyd a chlefydau trosglwyddadwy, a'u rheoli.

1.11 Lleolir swyddogion yn yr Adain Safonau Masnach, sy'n cynnwys cymysgedd o Weithwyr Proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach sy'n gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

1.12 Mae Swyddfeydd yr Awdurdod ar agor i'r cyhoedd rhwng 08.30 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 08.30 a 16.30 ddydd Gwener.

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad i gynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid cynhwysfawr, ac roedd tystiolaeth bod rhaglen helaeth i wella'r gwasanaeth ar y gweill.

Dylai systemau monitro mewnol a gyflwynwyd yn ddiweddar, ynghyd â gweithredu gweithdrefnau gwaith drafft, gynnig sylfaen gadarn i fynd i'r afael â meysydd eraill y gwasanaeth, fel amlder arolygu safonau bwyd a gorfodi o ran bwydydd anifeiliaid.

2.2 Cryfderau'r Awdurdod

Gorfodi Hylendid Bwyd Ffurfiol
Defnyddid ystod o ddewisiadau gorfodi hylendid bwyd ffurfiol i sicrhau gwelliannau i safleoedd yn yr ardal. Cafwyd Erlyniadau, Rhybuddion Ffurfiol, Rhybuddion Gwahardd Brys, Rhybuddion Gwella ac achosion o Ildio Bwyd yn Wirfoddol mewn ffordd drylwyr a phriodol.

2.3 Meysydd Allweddol ar gyfer eu Gwella gan yr Awdurdod

Amlder Arolygiadau Safonau Bwyd
Nid oedd yr Awdurdod yn cynnal arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd

Gorfodaeth Bwydydd Anifeiliaid
Nid oedd llawer o dystiolaeth y cynhaliwyd gweithgareddau gorfodaeth priodol gan yr Awdurdod ar gyfer bwydydd anifeiliaid. Rhaid i'r Awdurdod gymryd camau i nodi busnesau a safleoedd y dylid eu cymeradwyo neu eu cofrestru, dyfeisio a gweithredu rhaglen arolygu a samplo briodol, a chynnal cofnodion addas.

Canfyddiadau'r Archwiliad

3 Trefnu a Rheoli

3.1 Gweithredai'r Awdurdod lywodraeth leol ar sail arddull Gabinet, gyda Chynllun Dirprwyo a nodai drefniadau'r Awdurdod ar gyfer dirprwyo swyddogaethau o'r Adran Weithredol i Aelodau unigol y Cabinet a Swyddogion.

3.2 Gan Dîm Safonau Masnach Adran Gwarchod y Cyhoedd Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Chynllunio'r Awdurdod oedd y cyfrifoldeb am gyflwyno'r gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd a bwydydd anifeiliaid.

3.3 Roedd fframwaith cynllunio corfforaethol yr Awdurdod yn cynnwys Cynllun Gwella Corfforaethol, a gynhyrchwyd ac a adolygwyd yn flynyddol fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella.

3.4 Nodai Cynllun 2003 - 2004 mai pum prif flaenoriaeth yr Awdurdod oedd:

- Gwella cyrhaeddiad addysgiadol;
- Cefnogi grwpiau bregus;
- Sicrhau cartrefi o ansawdd da;
- Gwella'r amgylchedd a'r isadeiledd;
- Sicrhau cydraddoldeb mynediad.

3.5 Nid oedd Matrics y Blaenoriaethau Gwasanaeth yn cysylltu gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod yn benodol â'r un o'r blaenoriaethau corfforaethol hyn, er y cyfrannai'r gwasanaeth yn sylweddol at flaenoriaethau ac amcanion yr Awdurdod.

3.6 Roedd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwarchod y Cyhoedd yr Awdurdod yn aelod o'r Grwp Iechyd Lleol ac yn Gadeirydd Is-Grwp Cynllunio'r Gynghrair Iechyd.

3.7 Nodai Gynllun Gwella Corfforaethol yr Awdurdod berfformiad yr Awdurdod mewn blynyddoedd blaenorol, a sefydlodd dargedau perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol ar gyfer 2003 - 2004. Y dangosyddion perfformiad a oedd yn berthnasol i orfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid oedd:

- Canran yr arolygiadau o safleoedd bwyd y dylid fod wedi'u gwneud, ac a wnaed mewn gwirionedd, ar gyfer:
- safleoedd risg uchel;
- safleoedd eraill;

- Sgôr yn erbyn rhestrau gwirio arfer gorau gorfodi ar gyfer iechyd yr amgylchedd a safonau masnach;
- Canran y safleoedd sy'n cael o leiaf un ymweliad yn ystod y cyfnod o 12 mis ar gyfer Safonau Masnach;
- Canran y cwynion am fwyd yr ymatebwyd iddynt o fewn safon y gwasanaeth.

3.8 Yn ystod 2002 – 2003, adroddodd yr Awdurdod iddo gwblhau 97% o'r arolygiadau hylendid bwyd ar safleoedd uchel eu risg a 96% o'r arolygiadau ar safleoedd eraill, yn erbyn targed perfformiad o 100% yr un. Nododd Cynllun Gwella Corfforaethol 2003 – 2004 yr Awdurdod y lleihawyd y targedau perfformiad i 98% am "ei fod yn amhosibl cyflawni 100% yn sgil y dull yr asesir risg safleoedd, a mudo yn ystod y flwyddyn o un band i un arall".

3.9 Nododd y Cynllun Gwella Corfforaethol nifer o heriau sy'n wynebu'r Awdurdod. Cynhwysai'r rhain wella ei fframwaith rheoli perfformiad, a sicrhau bod ei broses cynllunio gwasanaeth yn llywio ac yn mesur gwasanaethau yn effeithiol, ac yn ffurfio sylfaen dyrannu adnoddau.

3.10 Lluniwyd Cynllun Gwasanaeth Cyfraith Fwyd ar gyfer 2003 - 2004 gan yr Awdurdod a oedd, yn gyffredinol, yn bodloni gofynion yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Fwyd Awdurdod Lleol. Cynhwysai'r Cynllun Gwasanaeth orfodi hylendid bwyd a safonau bwyd ac, yn rhannol, cynhwysai orfodi o ran bwydydd anifeiliaid.

3.11 Ni chyflwynwyd Cynllun Gwasanaeth Cyfraith Fwyd i'r fforwm Aelodau perthnasol i'w gymeradwyo, fel sy'n ofynnol yn ôl yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Fwyd Awdurdod Lleol.

3.12 Er i'r Cynllun gael ei ddiweddaru'n rhannol o'r flwyddyn flaenorol, nid oedd peth gwybodaeth na chafodd ei ddiweddaru, yn berthnasol bellach, ac ymddangosai nad oedd gwybodaeth arall yn ymwneud â nifer y safleoedd a oedd yn destun gorfodaeth hylendid bwyd a safonau bwyd, yn cyfateb. Nid oedd dim gwybodaeth am raglenni arolygu safleoedd hylendid bwyd na bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod ar gyfer 2003 - 2004.

3.13 Dogfennodd yr Awdurdod adolygiad perfformiad blynyddol ar sail ei Gynllun Gwasanaeth ar gyfer 2002 - 2003, er nad oedd yn cynnwys bwydydd anifeiliaid, ac ni chafodd ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Aelodau priodol, fel sy'n ofynnol o dan Y Safon. Ni ymgorfforwyd canlyniadau'r adolygiad perfformiad hwn yn llawn yng Nghynllun Gwasanaeth 2003 – 2004.

3.14 Adeg yr archwiliad, adroddodd yr Awdurdod bod nifer cyfwerth â 6.6 swyddog amser llawn (FTE) yn ymdrin â gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd, a bod 0.1 swyddog FTE yn gorfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid. Ni nodwyd nifer y swyddi sefydledig, er y crybwyllwyd yn y Cynllun Gwasanaeth bod anawsterau staffio wedi cael 'effaith fawr' ar berfformiad yn ystod 2002 - 2003.

3.15 Cyllideb ariannol net y gwasanaeth gorfodi hylendid a safonau bwyd ar gyfer 2003 - 2004 oedd £286,523. Ni nodwyd a oedd hyn yn gynnydd neu'n ostyngiad net o'i gymharu â 2002 - 2003. Ni roddwyd ffigurau cyllideb ar gyfer y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

3.16 Dylai'r Awdurdod:

(i) Adolygu ei Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth i sicrhau ei fod yn bodloni'n llawn yr holl feini prawf a nodwyd yn yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth ym Mhennod 1 y Cytundeb Fframwaith, gan gynnwys ei gyflwyno i'r fforwm Aelodau perthnasol i'w gymeradwyo. [Y Safon – 3.1]

(ii) Cyflwyno'r adolygiad perfformiad blynyddol dogfenedig o'r cynllun gorfodi cyfraith fwyd i'w gymeradwyo gan yr Aelodau priodol. [Y Safon – 3.2]

(iii) Ymdrin ag unrhyw amrywiad o ran bodloni'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn ganlynol. [Y Safon – 3.3]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Nid oedd yr Awdurdod wedi cwblhau dogfennu ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer yr holl weithgareddau gorfodi a gynhwysir gan Y Safon ac, adeg yr archwiliad, roedd y rhan fwyaf ohonynt ar ffurf drafft o hyd.

4.2 Nid oedd yr Awdurdod wedi sefydlu system reoli ar gyfer yr holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'i weithgareddau gorfodi i sicrhau:

- Bod copïau diweddar o ddogfennaeth briodol, gan gynnwys deddfwriaeth ac arweiniad, ar gael yn yr holl leoliadau perthnasol ac i'r holl staff perthnasol;
- Y cynhwysid newidiadau neu ddiwygiadau gan yr awdurdodiad cywir a'u bod yn cael eu gwneud heb oedi gormodol; ac
- Y gwaredid dogfennau a ddisodlwyd.

4.3 Datgelodd archwiliad bod gan swyddogion fynediad at fersiynau cyfredol o ddeddfwriaeth ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

Argymhellion

4.4 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi a gynhwysir yn Y Safon, ar ôl eu cwblhau a'u gweithredu, eu hadolygu'n rheolaidd, a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu arweiniad a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon - 4.1]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu system reoli ar gyfer yr holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'i weithgareddau gorfodi. [Y Safon - 4.2]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Mae Adran 5 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ac Adran 67 Deddf Amaethyddiaeth 1970 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod benodi digon o swyddogion ac arolygwyr awdurdodedig. Dyletswydd yr Awdurdod ei hun yw penodi swyddogion ac arolygwyr awdurdodedig, er y gall drefnu dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn o dan Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5.2 Roedd gan y Cyfarwyddwr a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol bwer dirprwyedig i benodi swyddogion ac arolygwyr awdurdodedig yr Awdurdod, o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Hefyd, dyrannwyd yr un swyddogaethau i Benaethiaid gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

5.3 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ddrafft a oedd yn gymwys i awdurdodi swyddogion a chontractwyr o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Roedd cwmpas y weithdrefn ddogfenedig wedi'i gyfyngu i "holl gategorïau ymweliadau arolygu a wneir mewn cysylltiad â'r gweithgareddau gorfodi o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990".

5.4 Nodai'r weithdrefn y gallai Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfraith a Rheoleiddio'r Awdurdod awdurdodi swyddogion â chanddynt gymwysterau priodol o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ond ni soniai am y swyddogion eraill y dirprwywyd y pwer hwn iddynt, er y cawsant eu crybwyll mewn man arall yn y weithdrefn ddrafft.

5.5 Nodai'r weithdrefn ddrafft y gellid awdurdodi swyddogion awdurdodedig i gymeradwyo, gwahardd, diddymu a gorfodi amodau ar safleoedd a oedd yn destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, a chaniatáu, gwrthod, gwahardd a diddymu trwyddedau siopau cigyddion. Adeg yr archwiliad, ni ymddangosai y dirprwywyd y pwerau hyn i Swyddogion Awdurdodedig o dan Gynlluniau Dirprwyo'r Awdurdod.

5.6 Ni nodai'r weithdrefn sut y byddid yn ymdrin neu'n asesu gofynion hyfforddiant a chymhwysedd strwythuredig Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd o ran penodi ac awdurdodi swyddogion newydd. Cynhwysid hyn yn rhannol yng Ngweithdrefn Monitro Mewnol ddrafft yr Adran ar gyfer hylendid bwyd, er na weithredwyd hyn adeg yr archwiliad.

5.7 Adeg yr archwiliad, ni roddwyd dogfennau i swyddogion awdurdodedig i gadarnhau eu penodiad neu i ba raddau roedd awdurdod ganddynt i weithredu. Nodwyd y cynhwysid y fath ddogfen yn y weithdrefn ddogfenedig ddrafft, er bod angen adolygu ac ail-ddrafftio'r ddogfen cyn ei gweithredu.

5.8 Awdurdodwyd swyddogion i weithredu o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

5.9 Penodwyd swyddogion arweiniol â chanddynt gyfrifoldeb am orfodi deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Gwiriwyd bod gan y swyddogion hyn y wybodaeth, hyfforddiant a chymwysterau gofynnol ar gyfer y swydd.

5.10 Cadarnhaodd asesiad o awdurdodiadau a roddwyd y penodwyd ac yr awdurdodwyd swyddogion awdurdodedig yn unol â'u cymwysterau, er na chafwyd unrhyw gofnodion a oedd yn ymwneud ag asesu cymhwysedd neu hyfforddiant strwythuredig staff newydd eu penodi.

5.11 Dangosai archwiliad o gofnodion arolygu a chofnodion eraill y gweithredai swyddogion yn unol â'u hawdurdod.

5.12 Cafodd yr Awdurdod anawsterau o ran recriwtio staff addas yn ystod 2002 - 2003, ac adroddodd yn ei Gynllun Gwasanaeth bod angen iddo fynd i'r afael â'r mater o recriwtio a chadw staff, ynghyd ag archwilio dewisiadau amgen i recriwtio swyddogion cymwys.

5.13 Enillodd Adran Gwarchod y Cyhoedd achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl ym mis Medi 2002 ac, felly, roedd ganddi gynllun datblygiedig iawn a chadarn ar gyfer arfarnu a datblygu staff. Hefyd, roedd Gweithdrefn Hyfforddi a Datblygu Adrannol ddrafft i sicrhau bod "staff yn derbyn hyfforddiant a datblygiad ar sail nodau ac amcanion adrannol, ac y cofnodir yr holl hyfforddiant a datblygiad". Darparai'r cynllun adrannol ar gyfer nodi a chofnodi anghenion hyfforddi, a chofnodi hyfforddiant a wnaed, gan gynnwys datblygiad parhaus.

5.14 Gallai'r Awdurdod gynhyrchu copïau o dystysgrifau cymwysterau ar gyfer yr holl swyddogion a benodwyd yn swyddogion awdurdodedig o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

5.15 Cadwai swyddogion eu cofnodion arfarnu a datblygiad personol mewn portffolio personol fel rhan o achrediad BmP yr Adran. Yn gyffredinol, roedd cofnodion hyfforddiant a wnaed wedi'u cadw'n dda, er y nodwyd nad oedd cynnwys ac amcanion y cwrs yn gynwysedig bob tro, na pharhad ac asesiad unrhyw hyfforddiant a wnaed.

5.16 Dangosai cofnodion a archwiliwyd fod gan yr Awdurdod ymrwymiad i addysg ac ymagwedd gadarnhaol i ddatblygiad personol a phroffesiynol. Roedd gofynion datblygiad parhaus Codau Ymarfer 8, 9 a 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd yn cael eu bodloni.

Argymhellion

5.17 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau ei fod wedi penodi digon o swyddogion awdurdodedig i wneud y gwaith, fel a nodwyd yn ei Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth. [Y Safon – 5.3]

(ii) Sicrhau bod cofnodion hyfforddiant swyddogion yn cynnwys amcanion a chynnwys y cyrsiau, a pharhad ac unrhyw asesiad o ran hyfforddiant a wnaed. [Y Safon – 5.4]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi peri bod y cyfleusterau a'r offer sy'n angenrheidiol i ganiatáu cynnal yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, ar gael.

6.2 Sefydlwyd gweithdrefn ddrafft ar gyfer Calibro a Chynnal a Chadw Offer i sicrhau bod offer yn cael eu calibro a'u cynnal a'u cadw'n briodol, ac yn cael eu gwaredu o ganfod eu bod yn ddiffygiol, er na fanylwyd amlder calibro offer monitro tymheredd a ddefnyddid at ddibenion gorfodi.

6.3 Roedd gan yr holl offer monitro tymheredd a ddefnyddid at ddibenion gorfodi dystysgrifau calibro dilys, a chedwid cofnodion priodol.

6.4 Ystyriwyd bod y gronfa ddata safleoedd yn gallu darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd. Fodd bynnag, nodwyd nifer o wallau a fyddai'n effeithio ar allu'r Awdurdod i gael gwybodaeth gywir oddi ar y gronfa ddata.

6.5 Derbyniodd gweinyddwyr y system hyfforddiant ar ddefnyddio cyfleuster adrodd annatod y gronfa ddata. Hefyd, dibynnai'r Awdurdod ar gyflenwr y feddalwedd i gynhyrchu adroddiadau a dadansoddiadau cymhleth ar reoli a pherfformiad.

6.6 Derbyniai'r Awdurdod gymorth ychwanegol gan gyflenwr y feddalwedd i gynhyrchu adroddiadau a dadansoddiadau rheoli a pherfformiad, yn ôl y gofyn.

6.7 Gwaned copïau wrth gefn dyddiol o'r gronfa ddata gan Adran TG Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol yr Awdurdod.

Argymhellion

6.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Adolygu a gweithredu'r weithdrefn ar gyfer calibro a chynnal a chadw offer. [Y Safon – 6.2]

(ii) Gweithredu'r gronfa ddata yn y fath fodd fel ag i allu darparu gwybodaeth ofynnol i'r Asiantaeth. [Y Safon – 6.4]

7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

7.1 Nodai Cynllun Gwasanaeth Cyfraith Fwyd yr Awdurdod ar gyfer 2003 - 2004 fod 1210 o fusnesau bwyd yn ei ardal yn destun arolygiadau hylendid bwyd. Roedd proffil graddio'r risg fel a ganlyn:

Grwp Risg	Amlder Arolygu	Cyfanswm y Safleoedd	% y Cyfanswm
A	6 mis	8	1
B	12 mis	155	13
C	18 mis	509	42
D	24 mis	195	16
E	36 mis	199	16
F	60 mis	144	12
Heb eu Graddio		0	0
Cyfanswm		1210	

7.2 Ni chynhwysai'r Cynllun Gwasanaeth wybodaeth am raglen arolygu hylendid bwyd yr Awdurdod ar gyfer 2003 - 2004. Nid oedd ychwaith gyfeiriad at unrhyw arolygiadau a raglennwyd na chafodd eu gwneud yn ystod y flwyddyn flaenorol.

7.3 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ddrafft ar gyfer arolygiadau ac ailymweliadau hylendid bwyd a sefydlai ymagwedd unffurf at arolygiadau diogelwch bwyd a wnaed gan swyddogion a chontractwyr yr Awdurdod. Nodai'r weithdrefn y byddid yn cynnal arolygiadau hylendid bwyd yn ôl yr amlder a bennid gan gynllun graddio'r risg a nodir yng Nghod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.4 Cadarnhaodd archwiliad o 14 hanes o archwilio busnesau bwyd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn cyn yr archwiliad bod pob un o'r 10 safle cyffredinol, a phob un o'r 4 Safle Cymeradwy, wedi cael eu harolygu yn ôl yr amlder cywir.

7.5 Dangosai adroddiad, a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad, bod arolygiadau hylendid bwyd ar 77 o fusnesau bwyd yn hwyr, 49 ohonynt yng nghategorïau risg B a C.

7.6 Cynhwysai'r weithdrefn arolygu hylendid bwyd ffurflen adrodd ynghylch arolygiadau safleoedd bwyd safonol, adolygiad dadansoddi perygl, taflen

gynnydd ynghylch ymweliadau hylendid bwyd, llythyr safonol a pharagraffau safonol a ddefnyddid gan arolygwyr i gofnodi ac adrodd ynghylch arolygiadau hylendid bwyd cyffredinol. Gadewid crynodeb o adroddiad arolygu safonol am hylendid bwyd gyda'r perchennog ar ddiwedd arolygiad. Roedd y ffurflenni hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn unol â Chod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.7 Ymdriniai gweithdrefn ddogfenedig ddrafft ar wahân â chymeradwyo ac arolygu safleoedd sy'n destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, er bod hon yng nghyfnod cynnar ei datblygu adeg yr archwiliad, a dywedwyd wrth yr archwilwyr bod angen mwy o waith arni cyn y gellid ei gweithredu.

7.8 Nid oedd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion, er bod ffurflen gais am drwydded safonol a ffurflen asesu trwyddedu siopau cigyddion ar gael i'w defnyddio gan swyddogion wrth gynnal arolygiadau trwyddedu siopau cigyddion. Trwyddedwyd 28 o siopau cigyddion gan yr Awdurdod.

7.9 Datgelai archwiliad o 9 ffeil ynghylch siopau cigyddion trwyddedig, er bod cofnodion, yn gyffredinol, yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda iawn, nad oedd copi o un drwydded ar ffeil, ac anfonwyd llythyr a gyfeiriai at Rybudd Gwella nad oedd wedi'i setlo, gyda thrwydded mewn un achos.

7.10 Cynhaliwyd arolygiadau hylendid bwyd gan swyddogion yn unol â lefelau eu hawdurdod.

7.11 Roedd nodiadau arolygu a data arolygu arall a gofnodwyd gan swyddogion adeg arolygu yn ddealladwy ac yn adferadwy.

Argymhelliad

7.12 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y caiff trwyddedau siopau cigyddion eu rhoi yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.2]

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

7.13 Nodai Cynllun Gwasanaeth 2003 - 2004 fod 1003 o fusnesau bwyd yn ardal yr Awdurdod yn destun arolygiadau safonau bwyd. Roedd proffil graddio'r risg a'r rhaglen arolygu fel a ganlyn:

Grwp Risg	Amlder Arolygu	Cyfanswm y Safleoedd	Arolygiadau Arfaethedig
Uchel	**12 mis**	**49**	**48**
Canolig	**24 mis**	**665**	**345**
Isel	**60 mis**	**289**	**67**
Heb eu Graddio		**0**	**0**
Cyfanswm		**1003**	**460**

7.14 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig o ran arolygiadau safonau bwyd, er bod ffurflen arolygu safonau bwyd i'w defnyddio gan swyddogion wrth gynnal arolygiadau safonau bwyd. Gadewid crynodeb o adroddiad arolygu safonol am safonau bwyd gyda'r perchennog ar ddiwedd arolygiad. Roedd y ffurflenni hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn unol â Chod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.15 Dangosai adroddiad, a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad, bod arolygiadau safonau bwyd ar 401 o fusnesau bwyd yn hwyr, 138 ohonynt yn hwyr ers cyn 2000. Ni arolygwyd rhai busnesau at ddibenion safonau bwyd ers 1996. O'r arolygiadau a oedd yn hwyr, roedd 2 ar safleoedd a ddosbarthwyd yn rhai uchel eu risg, a 279 yn rhai risg canolig. Ni soniwyd am arolygiadau hwyr yng Nghynllun Gwasanaeth Cyfraith Fwyd.

7.16 Ystyriwyd nad oedd gan 109 o safleoedd bwyd risg y gellid ei harolygu at ddibenion safonau bwyd.

7.17 Datgelai hanes arolygu safonau bwyd o ran 11 o fusnesau bwyd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn cyn yr archwiliad, o'r 5 y cofnodwyd arolygiadau blaenorol ar eu cyfer, na arolygwyd yr un ohonynt yn ôl yr amlder cywir.

7.18 Roedd cofnodion arolygu o ran nifer o'r busnesau hyn yn annigonol i bennu cwmpas a manylion yr arolygiad safonau bwyd.

7.19 Yn gyffredinol, roedd nodiadau arolygu a data arolygu arall a gofnodwyd gan swyddogion adeg arolygu yn ddealladwy ac yn adferadwy.

7.20 Ni soniai Cynllun Gwasanaeth 2003 - 2004 am raglen arolygu safleoedd bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth y

bodolai'r fath raglen adeg yr archwiliad, er y cynhaliwyd 3 arolygiad bwydydd anifeiliaid yn ystod y tri mis cyn yr archwiliad.

7.21 Adroddai'r Awdurdod nad oedd ganddo unrhyw sefydliadau cymeradwy o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999. Ni ymdriniwyd ag arolygu safleoedd cofrestredig yng Nghynllun Gwasanaeth yr Awdurdod.

7.22 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygu safleoedd bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

7.23 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ôl amlder nad yw'n llai nag a bennir gan y radd risg arolygu berthnasol. [Y Safon – 7.1]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn arolygu ddogfenedig ar gyfer arolygiadau safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 7.4]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi er ymchwilio i'r holl gwynion am fwyd a bwydydd anifeiliaid, a sefydlwyd gweithdrefnau dogfenedig drafft ganddo a oedd yn gymwys i gwynion am hylendid bwyd a safonau bwyd, a chwynion am safleoedd bwyd. Nid oedd unrhyw weithdrefn ddogfenedig a oedd yn gymwys i gwynion am fwydydd anifeiliaid.

8.2 Archwiliwyd cofnodion 8 gwyn am hylendid bwyd a 6 chwyn am safonau bwyd.

8.3 Yn gyffredinol, nodai cofnodion cwynion am safonau bwyd y cynhaliwyd ymchwiliadau trylwyr ac y cymerwyd camau priodol yn unol â'r polisi gorfodi ac o fewn yr amserlen berthnasol.

8.4 Roedd cofnodion cwynion am hylendid bwyd yn llai cynhwysfawr ac, mewn 3 achos, roeddent yn annigonol i bennu a gynhaliwyd ymchwiliad priodol.

8.5 Ni chafwyd unrhyw gwynion diweddar ynghylch bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

8.6 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin â chwynion am fwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 8.1]

(ii) Sicrhau y gweithredir gweithdrefnau dogfenedig yn llawn wrth ymchwilio i gwynion am hylendid bwyd.
[Y Safon – 8.2]

9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Nodai Cynllun Gwasanaeth Cyfraith Fwyd fod Adran Gwarchod y Cyhoedd yr Awdurdod wedi "cofrestru ar gyfer Egwyddor Awdurdod Cartref LACORS", ac y cymeradwywyd hyn gan y Cyngor.

9.2 Cadarnhâi nifer o weithdrefnau dogfenedig drafft yr Adran y byddai cysylltu ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol yn rhan annatod o broses orfodi'r Awdurdod.

9.3 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol. Er hynny, nodai'r Cynllun Gwasanaeth bod yr Awdurdod yn gweithredu yn Awdurdod Cartref i 4 o fusnesau bwyd a weithredai yn ei ardal.

9.4 Darparai adroddiad restr o 5 o fusnesau bwyd y gweithredai'r Awdurdod yn Awdurdod Cartref ar eu cyfer, y cofrestrwyd pob un ohonynt ar gronfa ddata Awdurdod Cartref LACORS. Y tro diwethaf y diweddarwyd cofnodion yr Awdurdod yn y gronfa ddata oedd ym mis Ebrill 2003.

9.5 Roedd gan swyddogion fynediad Rhyngrwyd at gronfa ddata Awdurdod Cartref LACORS trwy gyfrifiaduron pen bwrdd a rennid ac, felly, gallasent nodi Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol perthnasol a chysylltiadau mewn awdurdodau lleol.

9.6 Dangosai cofnodion a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad yr ymddangosai fod yr Awdurdod, yn gyffredinol, yn gweithredu Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn effeithiol o ran materion hylendid bwyd, ac yn ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau eraill.

9.7 Fodd bynnag, nodwyd yr ymddangosai nad oedd Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn cael ei weithredu a'i gymhwyso cystal o ran materion safonau bwyd.

Argymhelliad

9.8 Dylai'r Awdurdod:

Gynnig cyngor ar faterion safonau bwyd i fusnesau y mae'n gweithredu yn Awdurdod Cartref ac/neu yn Awdurdod Gwreiddiol ar eu cyfer. [Y Safon – 9.1]

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Dangosai'r Awdurdod ymagwedd weithgar a chadarnhaol at helpu busnesau lleol i gydymffurfio â'r gyfraith, fel a ddangoswyd gan nifer y mentrau a weithredwyd, neu a oedd yn cael eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhoi gwybodaeth i fusnesau lleol am ddarparwyr hyfforddiant ar hylendid bwyd cydnabyddedig yn yr ardal;
- Cynnig arweiniad HACCP ymarferol i gigyddion ac arlwywyr adwerthu, ac i gartrefi preswyl a chartrefi nyrsio;
- Cynhyrchu taflenni cyngor ymarferol ar ystod o faterion hylendid bwyd a labelu i fusnesau;
- Rhoi cyngor ac arweiniad i fusnesau newydd.

10.2 Roedd tystiolaeth y rhoddid cyngor yn rheolaidd ar gais ac yn ystod arolygiadau.

10.3 Hefyd, drafftiodd yr Awdurdod arolwg cwsmeriaid a fyddai'n helpu llywio ei broses cynllunio gwasanaeth, ac yn helpu ffurfio a chanolbwyntio ei wasanaeth gorfodi cyfraith fwyd wrth ystyried dewisiadau ar gyfer cyflwyno gwasanaeth yn y dyfodol.

10.4 Nid oedd unrhyw dystiolaeth a awgrymai fod yr Awdurdod yn cynnig cyngor i fusnesau ynghylch bwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

10.5 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei gyngor i fusnesau i gynnwys bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 10.1]

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu system electronig ar gyfer rheoli data a gwybodaeth i Adran Gwarchod y Cyhoedd, a oedd yn cadw manylion am safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.

11.2 Roedd gan yr Awdurdod bolisi dogfenedig ar gyfer rheoli'r gronfa ddata electronig, a nodai'r gofynion ar gyfer rheoli a datblygu'r system, yn ogystal â mewnbynnu, diwygio a dileu data. Roedd y polisi'n gymwys i'r holl staff yn Adran Gwarchod y Cyhoedd a ddefnyddiai'r system neu â chanddynt fynediad at y system.

11.3 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ddrafft i sicrhau bod y gronfa ddata'n gywir ac yn gyfredol, ac y gweithredid mesurau diogelwch rhesymol i atal pobl anawdurdodedig rhag cael mynediad iddi a newid y wybodaeth, er mai dim ond i orfodi hylendid bwyd yr oedd yn berthnasol.

11.4 Roedd gan Reolwyr y System gyfrifoldeb am greu cyfrifon a chyfrineiriau i ddefnyddwyr y gronfa ddata, a gosod lefelau diogelwch defnyddwyr.

11.5 Datgelwyd rhai gwallau yng ngweithrediad y gronfa ddata ac yn y modd y cofnodid data yn ystod yr archwiliad, a chynhwysai'r rhain:

- Cyfnodau rhwng arolygiadau hylendid bwyd yn wahanol i'r rhai a nodir yng Nghod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd;
- Graddau risg hylendid bwyd ddim yn cyd-fynd â chofnodion ffeil;
- Ailymweliadau hylendid bwyd heb eu cofnodi.

11.6 Dewiswyd safleoedd bwyd yn ardal yr Awdurdod ar hap o'r cyfeiriadur busnes lleol. Cofnodwyd pob un ar y gronfa ddata a'u cynnwys yn y rhaglenni arolygu perthnasol.

Argymhelliad

11.7 Dylai'r Awdurdod:

Adolygu'r weithdrefn ddrafft i gynnwys safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, a chynnal a gweithredu'r weithdrefn yn llawn i sicrhau ei bod yn gywir ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2]

12 Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Cyffredinol

12.1 Rhestrai Polisi Gorfodi'r Awdurdod bod cadw, atafaelu ac ildio bwyd yn wirfoddol yn ddewisiadau gorfodi y gellid eu defnyddio gan Swyddogion Awdurdodedig mewn amgylchiadau priodol.

12.2 Roedd gan yr Awdurdod bolisi samplo dogfenedig ar gyfer hylendid bwyd, gweithdrefn samplo ddogfenedig ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, a rhaglen samplo flynyddol ar gyfer safonau bwyd.

12.3 Roedd tystiolaeth o ystod o weithgarwch samplo a dargedwyd at amrywiaeth o gynhyrchion a gynhyrchid ac a weithgynhyrchid yn lleol, a chyfranogiad gweithredol mewn arolygon a gyd-drefnwyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Fodd bynnag, golygai absenoldeb rhaglen samplo ar gyfer samplau hylendid bwyd nad oedd yn bosibl pennu sut y dewiswyd busnesau neu samplau.

12.4 Rhestrai adroddiad, a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod yn rhan o'r ddogfennaeth cyn-arolygu, gyfanswm o 105 o samplau hylendid bwyd a 532 o samplau safonau bwyd a gymerwyd yn ystod chwe mis olaf 2003 - 2004.

12.5 Roedd labordai a ddefnyddid gan yr Awdurdod i archwilio a dadansoddi samplau bwyd a bwydydd anifeiliaid wedi'u hachredu'n briodol, ac roeddent ar restr o Labordai Swyddogol y rhoddodd Llywodraeth y DU wybod i'r Comisiwn Ewropeaidd amdanynt.

12.6 Diweddarodd yr Awdurdod ei benodiadau Dadansoddwr Cyhoeddus a Dadansoddwr Amaethyddol ym mis Tachwedd 1999. Adeg yr archwiliad, nodwyd y cafwyd newidiadau pellach yng ngwasanaethau a phersonél y labordai ers hynny, a dywedwyd wrth yr archwilwyr eu bod yn ymdrin â hyn.

Hylendid Bwyd

12.7 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth mai bwriad yr Awdurdod oedd cyfranogi yn Arolwg Basged Siopa Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru a mentrau samplo cenedlaethol eraill a gynigid gan LACORS ac ASB, a chymryd nifer a math amhenodol o samplau o safleoedd gweithgynhyrchu.

12.8 Amcangyfrifai'r Awdurdod y byddai'n cymryd 450 o samplau hylendid bwyd yn ystod 2003 – 2004 ac, adeg yr archwiliad, ymddangosai fod nifer y samplau a gymerwyd mewn gwirionedd, yn bodloni'r nod.

12.9 Archwiliwyd cofnodion 11 o samplau hylendid bwyd. Cofnodwyd pob un o'r 11 yn samplau ffurfiol ar y gronfa ddata. Roedd pwy oedd y swyddog a gymerodd y sampl mewn gwirionedd yn aneglur mewn nifer o achosion.

12.10 Ymdriniwyd ag un sampl anfoddhaol yn ddyfal iawn, ac roedd y llythyr dilynol i'r busnes yn llawn gwybodaeth ac yn gynorthwyol iawn.

12.11 Ni ddaethpwyd o hyd i wybodaeth am 2 sampl y cofnodwyd iddynt gael eu cymryd, ac mewn 3 achos arall lle cofnodwyd canlyniadau anfoddhaol, nid oedd yn bosibl pennu a gafwyd unrhyw gamau dilynol priodol.

12.12 Mewn 2 achos, dilynwyd canlyniadau anfoddhaol â llythyrau'n datgan y byddid yn cymryd mwy o samplau, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth y cafwyd ymweliadau dilynol na mwy o samplo.

12.13 Ailddatganwyd y canlyniadau mewn dau lythyr dilynol heb gynnig unrhyw ddehongliad, arweiniad neu gyngor cefnogol, a fyddai wedi ychwanegu eglurdeb.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.14 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth y sylfaen y byddid yn llunio rhaglen samplo safonau bwyd arfaethedig 2003 - 2004 yr Awdurdod arno. Canolbwyntiai'r rhaglen ar gynhyrchwyr bwyd lleol, a chytunwyd arni ar y cyd â'r Dadansoddwr Cyhoeddus ac Awdurdodau eraill a ddefnyddiai'r un labordy.

12.15 Adeg yr archwiliad, ymddangosai bod nifer y samplau'n bodloni'r nod, a bod y rheiny a gymerwyd yn cyfateb i'r rhaglen samplo safonau bwyd arfaethedig.

12.16 Archwiliwyd cofnodion 10 sampl safonau bwyd, y cymerwyd 3 ohonynt yn 'anffurfiol'. Ni dderbyniwyd canlyniadau 5 sampl adeg yr archwiliad. Cofnodwyd bod 3 o'r samplau'n 'anfoddhaol'.

12.17 Mewn un achos, roedd ychydig o ddryswch ynghylch a gymerwyd sampl safonau bwyd dilynol yn ffurfiol ynteu'n anffurfiol a chyfrannai hyn, ynghyd â cholli trydedd ran y sampl ffurfiol cyntaf, at i erlyniad posibl fynd yn brin o amser a gorfod cael ei adael.

12.18 Dangosai'r Cynllun Gwasanaeth mai bwriad yr Awdurdod oedd cynyddu nifer y samplau bwydydd anifeiliaid y byddai'n eu cymryd yn ystod 2003 - 2004 o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol**.**

Argymhellion

12.19 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cymerir camau priodol ynghylch unrhyw anghydffurfiad a ganfyddir o ran bwyd, yn unol â'i weithdrefn samplo diogelwch bwyd. [Y Safon – 12.2]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu polisi samplo dogfenedig ar gyfer samplau safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, a rhaglen samplo ar gyfer samplau hylendid bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 12.3]

(iii) Sicrhau y cymerir camau priodol yn unol â'i bolisi gorfodi lle ystyrir nad yw canlyniadau samplau yn foddhaol. [Y Safon – 12.6]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd.

13.1 Ar y cyd, roedd yr Awdurdod a rhanddeiliaid perthnasol eraill wedi sefydlu gweithdrefn ddogfenedig i Reoli Clefydau Trosglwyddadwy (yr OCP)

13.2 Cynhwysai'r OCP amod y byddai'n cael ei adolygu bob 2 flynedd, er y cafwyd y diwygiad dogfenedig diwethaf ym mis Medi 2000. Adeg yr archwiliad, cynhwysai'r OCP wybodaeth a oedd wedi dyddio ers tro byd, ac ni wnaed diwygiadau angenrheidiol.

13.3 Nodwyd bod yr Awdurdod yn disgwyl am gynllun model diwygiedig i Gymru, a oedd yn cael ei ddrafftio gan Banel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy, cyn mynd ymlaen i ddiwygio ei OCP.

13.4 Cafwyd un achos o glefyd heintus sy'n ymwneud â bwyd yn ardal yr Awdurdod yn y 2 flynedd cyn yr archwiliad, a gynhwysai glwstwr o heintiadau a achoswyd gan yr un math o Salmonela bacterioffag cymharol anghyffredin. Dangosai cofnodion y cynhaliwyd ymchwiliad cynhwysfawr.

13.5 Er na chynullwyd tîm rheoli achosion yn ffurfiol, cynhaliwyd dau gyfarfod a gynhwysai swyddogion ymchwilio, Swyddog Priodol yr Awdurdod, yr Epidemiolegwr Rhanbarthol, y Microbiolegydd Ymgynghorol a Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru. Roedd tystiolaeth o gydweithio agos rhwng pob un o'r rhain, a chynhyrchwyd adroddiad ôl-achos.

13.6 Hefyd, sefydlodd yr Awdurdod weithdrefnau dogfenedig ar wahân ar gyfer Ymchwilio i Rybuddion o Glefydau Trosglwyddadwy, ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy, ac a oedd ar ffurf ddrafft adeg yr archwiliad.

13.7 Adeg yr archwiliad, nid oedd swyddogion yn gweithredu'r weithdrefn ddogfenedig, er y cydnabyddid ei statws drafft. Dylai'r Awdurdod sicrhau bod y weithdrefn ddrafft yn adlewyrchu'n gywir ei ymagwedd at ymchwilio rhybuddion o glefydau trosglwyddadwy ac, ar ôl cwblhau'r weithdrefn, sicrhau y caiff ei gweithredu'n briodol.

13.8 Archwiliwyd 11 o ymchwiliadau i rybuddion achosion achlysurol. Ni chynhwysai'r un o'r 11 ddigon o wybodaeth i bennu a gynhaliwyd ymchwiliad priodol.

Argymhellion

13.9 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau yr adolygir yr OCP yn rheolaidd ar y cyd â rhanddeiliaid eraill. [Y Safon – 13.1]

(ii) Sicrhau y dogfennir y weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd yn briodol, ac y caiff ei gweithredu'n llawn gan swyddogion wrth gynnal ymchwiliadau. [Y Safon – 13.2]

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr Awdurdod Weithdrefn Rhybudd Perygl Bwyd ddogfenedig ar ffurf ddrafft a gynhwysai drefniadau ar gyfer ymateb i Rybuddion Perygl Bwyd (RhPB) a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd. Cynhwysai'r weithdrefn ddrafft daflen gofnod i gofnodi derbyn RhPB a'r camau a gymerwyd.

14.2 Dangosai'r weithdrefn y rhoddwyd rhifau cysylltu y tu allan i oriau gwaith yr Awdurdod i Asiantaeth Safonau Bwyd, ond ni roddai fanylion ynghylch sut y byddai'r Awdurdod yn sicrhau ymateb amserol i achosion a gafwyd y tu allan i oriau gwaith arferol yr Adran.

14.3 Ni roddai'r weithdrefn ddrafft fanylion am drefniadau'r Awdurdod ar gyfer rhybuddio Asiantaeth Safonau Bwyd lle nodwyd perygl bwyd gwirioneddol neu bosibl yn lleol.

14.4 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a allai dderbyn Rhybuddion Perygl Bwyd, a threfnodd ag Asiantaeth Safonau Bwyd iddynt gael eu hanfon drwy neges e-bost yn uniongyrchol at swyddogion enwebedig.

14.5 Ni roddai'r weithdrefn ddrafft fanylion am sut y byddai'r prif swyddogion yn cysylltu i bennu ymateb priodol yr Awdurdod i rybudd perygl bwyd, ac ni chynhwysai amgylchiadau lle na fyddai un prif swyddog neu fwy ar gael adeg derbyn rhybudd perygl bwyd.

14.6 Dangosai archwiliad o gofnodion yr awdurdod o rybuddion perygl bwyd a gyhoeddwyd yn ystod y 18 mis cyn yr archwiliad y derbyniwyd y rheiny a gyhoeddwyd ers mis Hydref 2003 yn gyflym a'u gweithredu'n briodol yn unol â chyngor Asiantaeth Safonau Bwyd. Dogfennwyd ymatebion, a chyhoeddwyd nifer o ddatganiadau i'r wasg.

14.7 Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau lleoledig difrifol yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

Argymhellion

14.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Adolygu a gweithredu'r weithdrefn ddrafft ddogfenedig ar gyfer ymateb i rybuddion perygl bwyd a dderbynnid gan Asiantaeth Safonau Bwyd.
[Y Safon – 14.1]

(ii) Dogfennu trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rhybuddio Asiantaeth Safonau Bwyd lle nodir perygl bwyd gwirioneddol neu bosibl yn lleol.
[Y Safon – 14.5]

15 Gorfodaeth

15.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu Polisi Gorfodi Cyffredin Gwarchod y Cyhoedd yn seiliedig ar egwyddorion arweiniol cysondeb, tegwch, cymesuredd, eglurder a gwrthrychedd, yn unol â'r Concordat Gorfodi, yr oedd yr Awdurdod yn ei gefnogi.

15.2 Mabwysiadwyd Polisi Gorfodi Cyffredin Gwarchod y Cyhoedd yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Medi 2002. Fodd bynnag, adeg yr archwiliad ni achoswyd bod y polisi, neu grynodeb cywir ohono, ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd nac i fusnesau bwyd yn ardal yr Awdurdod.

15.3 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi drafftio Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd a oedd yn gymwys i'r holl gamau gorfodi a gymerid gan swyddogion o dan ddeddfwriaeth diogelwch bwyd. Adeg yr archwiliad, ni chymeradwywyd y polisi drafft hwn gan fforwm perthnasol Aelodau'r Awdurdod Lleol.

Hylendid Bwyd

15.4 Mewn dogfennaeth cyn-archwilio, adroddodd yr Awdurdod ei fod wedi cymryd y camau gorfodi canlynol o ran materion hylendid bwyd yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad:

12 Erlyniad;
1 Rhybudd ffurfiol;
3 Rhybudd Gwahardd Brys;
2 achos o gau safleoedd bwyd yn wirfoddol;
20 Rhybudd Gwella;
1 achos o atafaelu bwyd;
5 achos o ildio bwyd yn wirfoddol.

Roedd yn amlwg y defnyddid ystod eang o ddewisiadau gorfodi hylendid bwyd yn rheolaidd yn yr Awdurdod. Yn gyffredinol, cymerwyd penderfyniadau gorfodi yn unol â'r polisi gorfodi ac arweiniad swyddogol, a chymerwyd camau priodol lle nodwyd troseddau.

15.5 Archwiliwyd cofnodion 11 erlyniad, 1 rhybudd ffurfiol, 3 Rhybudd Gwahardd Brys, 2 achos o Gau Gwirfoddol, 10 Rhybudd Gwella, 1 achos o atafaelu bwyd, a 5 achos o ildio bwyd yn wirfoddol, a'u gwirio yn erbyn arweiniad swyddogol, y polisi gorfodi, a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod.

15.6 Roedd cofnodion erlyniadau wedi'u cyflwyno'n eithriadol o dda ac yn gynhwysfawr, gyda phob ffeil achos yn cynnwys llwybr archwilio llawn o gyflawni'r drosedd honedig i gwblhau'r erlyniad.

15.7 Er y cymerodd un achos a ddechreuodd yn erlyniad posibl, 363 diwrnod o adeg cyflawni'r drosedd honedig i osod y Wybodaeth gerbron, dogfennwyd y rhesymau am yr oedi yn eglur a'u cyfiawnhau.

15.8 Dangosai archwiliad o'r Rhybudd Ffurfiol a gyhoeddwyd y'i gwnaed yn unol â gweithdrefn yr Awdurdod ac iddo gael ei baratoi, ei ddogfennu a'i weithredu'n eithriadol o dda.

15.9 Cyflwynwyd Rhybuddion Gwahardd Brys mewn amgylchiadau priodol, a gwnaed ceisiadau i'r Llys am Orchmynion Gwahardd Brys oddi mewn i'r cyfnod statudol. Monitrwyd amodau'r safle tra bu rhybuddion a gorchmynion mewn grym, a chodwyd gorchmynion yn brydlon unwaith yr aethpwyd i'r afael â'r materion yr oedd arnynt angen sylw.

15.10 Dangosai cofnodion 2 safle bwyd a oedd wedi cytuno cau'n wirfoddol fod cau yn gam priodol ymhob achos. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yr Awdurdod wedi cadarnhau'r cytundebau i gau yn ysgrifenedig â pherchnogion y busnesau perthnasol.

15.11 Archwiliwyd cofnodion 5 achos o ildio bwyd yn wirfoddol. Defnyddiwyd tystysgrifau a eiriwyd yn briodol ym mhob achos, a chedwid copïau o'r rheiny a gyhoeddwyd mewn llyfrau dyblygu.

15.12 Archwiliwyd deg ffeil ar gyfer safleoedd lle y cyflwynwyd Rhybuddion Gwella ar eu cyfer. Roedd y rhybuddion yn eglur ac yn hawdd i'w deall, nodwyd amserlenni a gwelwyd gwybodaeth gywir am y weithdrefn apelio yn unol â Chod Ymarfer Rhif 5 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o gyflwyno rhybuddion yn briodol ar gael bob tro, ac ni ddefnyddiwyd enw llawn derbynnydd y rhybudd ar dri achlysur.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

15.13 Cyhoeddwyd un rhybudd ffurfiol o ran trosedd safonau bwyd. Yn wreiddiol, roedd yr achos yn datblygu yn erlyniad, ond roedd y cofnodion ffeil wedi'u dogfennu'n dda ac yn cynnig esboniad llawn am ymadael â'r llwybr hwn.

Argymhelliad

15.14 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod fforwm Aelodau perthnasol yr Awdurdod Lleol yn cymeradwyo'r Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd, a bod naill ai'r polisi neu grynodeb cywir ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd ac i fusnesau bwyd yn ei ardal. [Y Safon – 15.1]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

16.1 Cedwid cofnodion am safleoedd lle'r oedd gan yr Awdurdod gyfrifoldebau o ran gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yn system gyfrifiadurol rheoli data a gwybodaeth Adran Gwarchod y Cyhoedd.

16.2 Cedwid cofnodion arolygiadau mewn ffeiliau copi caled ac ar ffurf crynodeb yng nghronfa ddata'r adran.

16.3 Cedwid cofnodion ynghylch safleoedd a ddefnyddiwyd yn fusnesau bwyd neu fwydydd anifeiliaid am o leiaf 6 blynedd am y cyfnod hwnnw.

Hylendid Bwyd

16.4 Roedd cofnodion arolygu hylendid bwyd safleoedd a oedd yn destun y rheoliadau hylendid bwyd cyffredinol, gan gynnwys cigyddion trwyddedig, a'r rheiny sy'n destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, ac roedd copïau o adroddiadau arolygu, ffurflenni cais, trwyddedau, cofrestriadau a dogfennau cymeradwyo ar ffeil.

16.5 Cynhwysai cofnodion broffil busnes, disgrifiad o'r gweithgareddau a wnaed, dyddiadau a chanlyniadau arolygiadau ac ymweliadau, graddau risg, asesiadau o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, camau gorfodi, cwynion yn erbyn y busnes, a chopïau o ohebiaeth.

16.6 Yn gyffredinol, adlewyrchai gohebiaeth ôl-arolygu ofynion Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, ac anfonwyd llythyrau ac adroddiadau o fewn cyfnod rhesymol wedi'r arolygiad.

16.7 Roedd nifer o gofnodion a oedd yn ymwneud â samplau hylendid bwyd yn anghyflawn.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

16.8 Yn gyffredinol, roedd cofnodion arolygiadau safonau bwyd yn llai cynhwysfawr a heb eu cadw cystal. Roedd ffurflenni arolygiadau safonau bwyd naill ai heb gael eu llenwi o gwbl neu, mewn nifer o achosion, wedi cael eu llenwi'n rhannol yn unig, ac arweiniai bylchau yn y wybodaeth a gofnodid am fusnesau bwyd at fethu â bodloni gofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

16.9 Defnyddid taflenni cofnodi safonol ar gyfer samplau safonau bwyd. Fodd bynnag, golygai bylchau yn y wybodaeth a gofnodwyd nad oedd yn bosibl cadarnhau yr ystyriwyd gofynion y cod ymarfer perthnasol bob tro.

Argymhelliad

16.10 Dylai'r Awdurdod:

Gadw cofnodion cyfredol ar ffurf adferadwy ar gyfer yr holl weithgareddau safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid a wnaed yn yr ardal, yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu, gweithredu a chyhoeddi Gweithdrefn Gwyno Gorfforaethol. Roedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal o Adeiladau Dinesig ac ar wefan yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd.

17.2 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi drafftio gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin â sylwadau a chwynion am y gwasanaeth gan gwsmeriaid, a oedd yn gymwys i'r holl gwynion, sylwadau a chlod gan gwsmeriaid am y gwasanaethau a gynigid gan Adran Gwarchod y Cyhoedd.

17.3 Nodai gweithdrefn ddrafft yr adran y camau ar gyfer ymdrin â chwyn anffurfiol am y gwasanaethau a gynigid gan Adran Gwarchod y Cyhoedd a wnaed o dan weithdrefn gorfforaethol yr Awdurdod.

17.4 Hefyd, nodai'r weithdrefn y byddid yn defnyddio'r cwynion a'r sylwadau i helpu llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

17.5 Ni chafwyd unrhyw gwynion yn erbyn gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd neu fwydydd anifeiliaid yr Awdurdod yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu ag awdurdodau cyfagos a chyrff perthnasol eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth a oedd yn gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogiad gweithredol yn y canlynol:

- Grwp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De Orllewin Cymru;
- Grwp Morgannwg;
- Grwp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy De Orllewin Cymru;
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Grwp Cyswllt Samplo Safonau Bwyd ac Amaethyddol Gorllewin Cymru.

18.2 Roedd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt ar gael, ac roeddent yn cadarnhau presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolwyr gwasanaeth priodol.

18.3 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod drefniadau cydweithio gweithredol ag:

- Adrannau eraill oddi mewn i'r Awdurdod;
- Menter HACCP yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Awdurdodau lleol eraill;
- Yr Awdurdod Iechyd a chyrff olynol;
- Colegau lleol a darparwyr hyfforddiant eraill;
- LACORS.

19 Monitro Mewnol

19.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu ffurf ddrafft gweithdrefn fonitro fewnol ddogfenedig gynhwysfawr ar gyfer hylendid bwyd, yn unol â Chod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. Ni chynhwysai'r weithdrefn weithgaredd Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid.

19.2 Roedd y weithdrefn yn gymwys i'r holl gamau a gymerwyd gan y Tîm Hylendid Bwyd, gan gynnwys arolygiadau, ceisiadau am wasanaeth, cwynion am fwyd, cynnal y gronfa ddata, samplo, atafaelu a chadw, Safleoedd Cymeradwy, digwyddiadau hylendid bwyd, rheoli clefydau heintus a thrwyddedu cigyddion. Roedd yr un mor gymwys i weithwyr a chontractwyr, a chynhwysai:

- Arolygon o foddhad cwsmeriaid;
- Cyfarfodydd tîm;
- Arfarnu staff;
- Cyfarfod un i un i adolygu gwaith;
- Monitro cysondeb arolygiadau;
- Monitro ansawdd cofnodion a dogfennaeth arall;
- Asesu aelodau tîm newydd.

19.3 Er bod gweithdrefn ddrafft yr Adran yng nghyfnodau cynnar ei gweithredu adeg yr archwiliad, roedd tystiolaeth bod gweithgaredd monitro perfformiad wedi cynyddu. Roedd agweddau cadarnhaol cyflwyno'r gwasanaeth yn cael eu nodi, ac aed i'r afael a thanberfformio.

19.4 Hefyd, roedd gan Adran Gwarchod y Cyhoedd achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) ers 2002, ac roedd wedi datblygu system perfformiad ac arfarnu gynhwysfawr a oedd yn gymwys i'r holl staff a gyflogid yn yr Adran. Cynhwysai'r system asesiad o anghenion hyfforddi.

19.5 Dangosai tystiolaeth y gweithredwyd system arfarnu a datblygu BmP, a dangosai cofnodion y cynhaliwyd ac y dogfennwyd adolygiadau perfformiad ac arfarniadau personol. Roedd anghenion hyfforddi yn cael eu nodi a'u hystyried, ac roedd portffolio personol swyddogion yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda.

19.6 Cynhelid cyfarfodydd Staff Gorfodi Safonau Masnach bob mis, a dangosai cofnodion bod staff yn trafod gwybodaeth a pherfformiad yr adran, ac yn cael y cyfle i drafod gwybodaeth fonitro a materion perthnasol eraill.

19.7 Cynhelid cyfarfodydd Tîm Hylendid Bwyd bob mis yn ogystal, a dangosai cofnodion bod trafodaethau'n cynnwys materion tebyg. Nodwyd y

dywedwyd wrth y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2003 yr ystyrid perfformiad y Tîm yn chwarterol gan Bwyllgor Archwilio Gwarchod y Cyhoedd yr Awdurdod. Ni ymddangosai y crybwyllid yr elfen bwysig hon o fframwaith rheoli perfformiad yr Awdurdod yng ngweithdrefnau dogfenedig yr Adran.

Argymhellion

19.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Estyn cwmpas y weithdrefn ddogfenedig i gynnwys gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 19.1]

(ii) Gwirio ei gydymffurfiad â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad perthnasol a gyhoeddwyd yn ganolog, a'i bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ei hun o ran holl agweddau'r gwasanaeth, gan gynnwys bwydydd anifeiliaid. [Y Safon - 19.2]

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Cyfranogodd yr Awdurdod yn adolygiad dogfennau ac archwilio cydymffurfiad rhyng-awdurdod o hylendid bwyd Cymru gyfan ym mis Hydref 1999.

20.2 Bwriad yr Awdurdod oedd cymryd rhan mewn archwiliad rhyng-awdurdod o weithdrefnau gwenwyn bwyd a chlefydau trosglwyddadwy, a oedd i'w gynnal yn ddiweddarach yn 2004.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo hylendid a safonau bwyd.

21.2 Roedd Adran Gwarchod y Cyhoedd wedi cychwyn neu gyfranogi mewn ystod o weithgareddau hyrwyddo, ac roedd ganddi gynlluniau am fwy o waith yn y maes hwn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Wythnos Genedlaethol Diogelwch Bwyd;
- 'Crucial Crew';
- Diwrnod Iechyd Merched;
- Gwobrau Ysgolion Curiad Calon Cymru;
- Cynllun Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru.

21.3 Hefyd, roedd yr Adran wedi sefydlu perthynas â gorsaf radio leol a chyfrannai'n rheolaidd i raglenni ar ystod o faterion hylendid bwyd, safonau bwyd a maeth.

21.4 Nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyrwyddo bwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

21.5 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithgarwch hyrwyddo i gynnwys bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 21.1]

Archwilwyr:

Prif Archwilydd: **Jane Davies**
Archwilwyr: Rob Wilkins
Keith Blake
Lindsay Horth
Tony Wheale

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Ty Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

ATODIAD A

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth.
Gwerth Gorau *	Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella
Arolygfeydd Ffin	Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd.
Concordat Gorfodi	Arweiniad gan y Llywodraeth sy'n nodi egwyddorion a gweithdrefnau gorfodaeth dda y gall awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â busnesau, llywodraeth leol a chanolog, grwpiau defnyddwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb. Mae'n nodi'r hyn y gall busnesau ac eraill sy'n cael eu rheoleiddio ei ddisgwyl gan

	swyddogion gorfodi.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd Anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl Bwyd	Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd • Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Archwilio Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau. O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a nodwyd yn y Safon.

Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodaeth fwyd.
HACCP	Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd.
Rhybudd Gwella	Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio Rhyng-Awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd.
Ffurflenni CSRhB	Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu

	wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol y ceir, oddi mewn i'w ffiniau, bwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol.
Graddio risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (SSM)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.